Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Beth mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 yn ei olygu i Tîm Addysg Ôl-16 Llywodraeth Cymru

Pam mae angen i ni newid ein hagwedd tuag at sgiliau a’r hyn sy'n newid?

Ystadegau a thueddiadau:

Yr enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer gweithwyr amser llawn yng Nghymru yw £537.8 yr wythnos (2020), yr ail isaf o genhedloedd y DU. Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yw 7.7%.

Nid yw 43% o bobl ifanc yn teimlo'n barod i ymuno â'r gweithlu ac yn poeni nad oes ganddynt hyder na sgiliau meddal.

Mae cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru wedi cynyddu yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod anghydraddoldebau'n parhau gyda phlant o grwpiau ethnig penodol, a phlant o gefndiroedd difreintiedig yn methu â chyflawni'r un canlyniadau â'u cyfoedion.

Mae economi Cymru’n cael ei ddominyddu gan fentrau llai – gyda 98.5% o holl fentrau Cymru’n cyflogi llai na 50 o staff.

Cymru sydd â'r ganran uchaf o'i phoblogaeth dros oedran ymddeol yn y DU ac mae'n cynyddu.

Mae nifer gweithgareddau dysgu oedolion wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf - 57,000 o oedolion yn 2014/15, o’i gymharu â 34,000 yn 2018/19. Ledled y DU, mae dysgu ffurfiol yn y gweithle wedi lleihau dros y 15 mlynedd diwethaf.

Felly, beth sy'n newid?

Mae’r pandemig COVID-19 wedi newid y ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio a dysgu. Mae peth o’r newid hwn wedi dod â buddion cadarnhaol i lesiant a gallai ddarparu gwersi i ni ar gyfer y dyfodol ar sut i gymryd mantais o ddatblygiadau technolegol.

Fodd bynnag, mae’r pandemig hefyd wedi amlygu meysydd lle nad oedd Cymru’n gwbl barod, fel mewn dysgu digidol. Mae’r angen am ymagwedd newydd, genedlaethol, tuag at ddysgu ar-lein yn fwy clir nag erioed.

Bydd y Cwricwlwm Cymru newydd yn cael ei gyflwyno o 2022. Mae ei genhadaeth yn cydnabod yn glir bwysigrwydd y system addysg yn y gwaith o greu dinasyddion cyfrifol a fyddant, yn eu tro, yn cyfrannu tuag at greu’r Gymru a garem ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae hefyd yn rhoi cyfle sy’n digwydd unwaith mewn cenhedlaeth i greu ysgolion llesiant – ymagwedd holistig sy’n rhoi’r un maint o bwyslais ar lesiant a mecanweithiau ymdopi ag ar sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae Hwb, y platfform Cymreig ar gyfer dysgu digidol, yn rhoi trosolwg o’r cwricwlwm newydd.



Wrth i lwybrau addysgol a gyrfaol ddod yn llai diffiniedig, gyda phobl yn dilyn sawl gyrfa mewn gwahanol sectorau yn ystod eu bywyd gwaith, bydd angen iddynt adeiladu’n barhaus ar eu setiau sgiliau. Mae angen i ni ddysgu gyda’n gilydd i greu ecosystem ddysgu gydol oes y gall pawb ei chyrchu ar unrhyw adeg. Mae creu Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol newydd yn rhoi cyfle arwyddocaol i ddatblygu gweledigaeth hirdymor a chwricwlwm ar gyfer dysgu ôl-16, a’r system sgiliau yng Nghymru, gan ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf.

Beth yw gweledigaeth y Comisiynydd?

Bydd sgiliau'n ymwneud â rhoi gallu i bobl, nid yn unig i weithio, ond i fyw bywyd da.

Erbyn 2050, bydd Cymru wedi symud yn gyflym i system lle mae pobl yn dysgu trwy gydol eu bywydau, gan wella ar y sgiliau presennol ac ennill rhai newydd yn seiliedig ar eu hanghenion unigol.

Bydd ein system addysg yn fwy personol a phobl yn gosod eu cyflymdra eu hunain, a byddwn yn symud i ffwrdd oddi wrth system seiliedig-ar-broses tuag at ddarparu cynnwys sy'n seiliedig ar brosiectau a phroblemau.

Yr Adran ar Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Sut fedr y weledigaeth hon gyfrannu at y 7 nod llesiant?

Cymru Lewyrchus

- Bydd y galw am swyddi a sgiliau yn ffocysu ar agweddau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol bywyd
- System gymwysterau lle mae pobl ifanc yn ffynnu gan fodloni galw cyflogwyr am sgiliau meddalach
- Bydd addysg yn cynnwys sgiliau hanfodol gan gadw mewn golwg ddatblygiadau mewn technoleg
- Diwydiant carbon isel, 'economi gwyrdd' sy'n tyfu mewn ynni adnewyddadwy a thechnolegau gwyrdd
- Dysgu sgiliau gydol oes i sicrhau bod pobl yn byw yn dda ac yn sicrhau gwaith gweddus a theg

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

- Bydd addysg yn cynnwys sgiliau dinasyddiaeth byd-eang
- Bydd Cymru'n arweinydd byd-eang mewn eco-lythrennedd
- Bydd addysg a dysgu'n macsimeiddio gwerth cyhoeddus.
- Mae sefydliadau'n cysylltu'n rhyngwladol gydag enw da am fod yn amgylcheddol gyfrifol

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg Ffynnu

- Bydd diwylliant yn cael ei ddathlu ac yn dod yn ganolbwynt y system addysg a sgiliau
- Bydd creadigrwydd yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi
- Bydd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn golygu bod dysgu Cymraeg yn ganolog i'n diwylliant

Cymru Iachach

- Bydd gweithio hyblyg, a dysgu o bell, yn caniatáu i bobl fyw bywydau mwy boddhaus
- Bydd ysgolion yn dysgu cydnerthedd ac iechyd meddwl a bydd llesiant yn ganolbwynt addysg
- Mae statws economaidd-gymdeithasol yn rhagfynegydd arwyddocaol iechyd a disgwyliad oes
- Bydd addysg a dysgu am oes yn lleihau anghydraddoldebau iechyd

Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Bydd gweithio hyblyg, lleol yn rhoi mwy o amser ar gyfer llesiant personol
- Bydd treulio mwy o amser mewn cymunedau lleol yn rhoi hwb i fusnesau lleol
- Bydd datblygu swyddi a sgiliau yn diwallu anghenion economi sylfaenol cryf

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

- System addysg a dysgu gydol oes wedi'i phersonoli gyda phobl yn gosod eu cyflymdra eu hunain
- Cyfleoedd cyflogaeth 'gwyrdd' newydd ledled cefn gwlad Cymru
- Cysylltedd digidol i alluogi pobl i weithio o unrhyw le
- Ymagwedd agored-i-bawb tuag at sgiliau a dysgu gydol oes sy'n lleihau anghydraddoldebau

Cymru Gydnerth

- Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn eco-lythrennog
- Bydd pob swydd yn y dyfodol yn ddiwydiannau 'gwyrdd'
- Bydd gan ysgolion erddi i blant ddysgu sgiliau fel tyfu eu bwyd
- Economi 'gwyrdd' a chylchol

Sgiliau ac (Ail-)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Llewyrchus, Gwyrdd a Chyfartal yn dilyn COVID-19

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar gyflogaeth a'r economi. Er ei fod yn heriol, mae'r sefyllfa'n rhoi cyfle i adeiladu'n ôl yn wahanol a gwella heriau hirsefydlog yng Nghymru. Gallai 'adferiad gwyrdd a chyfiawn' ddarparu bywoliaethau o ansawdd da a chefnogi datgarboneiddio cyflym a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn dibynnu ar roi'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir ar waith.

Rhwystrau i Lwyddiant:

Bwlch sgiliau - ar hyn o bryd nid oes digon o bobl ar gael i lenwi swyddi gwyrdd posibl yng Nghymru.

Mae hyfforddiant wedi ffocysu ar wahanol bynciau a sectorau. Mae angen nifer llawer uwch o brentisiaethau a hyfforddeion ar gyfer adferiad gwyrdd.

Mae addysg oedolion yn prinhau.

Anghydraddoldeb - ar hyn o bryd mae'r gweithlu 'gwyrdd' a hyfforddeion ar y cyfan yn ddynion gwyn.

Nid yw'r cyllid ar gyfer uwchsgilio yn ddigonol i ymdopi â'r galw a'r raddfa.

Camau ar gyfer Newid:

Mae yna gamau y gellir eu cymryd ar unwaith ac ymagweddau tuag at bolisi tymor hwy y gallwn eu mabwysiadu ar gyfer adferiad llewyrchus, gwyrdd a chyfartal, er enghraifft:

1. **Gwella aliniad a gweithredu tuag at argyfyngau hinsawdd a natur gyda buddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant a sectorau a fydd yn darparu adferiad gwyrdd a chyfiawn.**
2. **Buddsoddi yn niwydiannau a thechnolegau'r dyfodol, a chefnogi busnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel a chloi cyfoeth a swyddi mewn ardaloedd lleol gyda buddsoddiad yn yr economi sylfaenol.**
3. **Creu Strategaeth Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofi gan gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.**
4. **Creu cynllun ar gyfer ymateb i argyfyngau cyfredol a thueddiadau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n lleihau anghydraddoldebau yn hytrach na'u gwaethygu.**
5. **Sefydlu gweledigaeth genedlaethol i Gymru ddod y genedl fwyaf eco-lythrennog a chyfrifol yn y byd.**
6. **Sefydlu ac ariannu cenhadaeth genedlaethol a rennir ar gyfer addysg a hyfforddiant, gan gynnwys sgiliau busnes, y trydydd sector, actifyddion cymunedol, pobl hŷn a'r sector gwasanaethau ieuenctid.**
7. **Sefydlu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes.**
8. **Cynnal Peilot Incwm Sylfaenol.**
9. **Datblygu pecyn ysgogiad economaidd sy'n arwain at greu swyddi ac sy'n cynorthwyo datgarboneiddio cartrefi.**

Pa fath olwg allai fod ar Adferiad Llewyrchus, Gwyrdd a Chyfartal COVID-19?

Gallai buddsoddi mewn prosiectau seilwaith allweddol mewn diwydiannau gwyrdd ac adferiad natur greu o leiaf 45,000 o swyddi uniongyrchol a dros 60,000 o swyddi anuniongyrchol yn ystod y ddwy flynedd nesaf*

- **5,280 o swyddi** Adeiladu Rheilffordd
- **2,730 o swyddi** mewn aseswyr ynni ôl-ffitio
- **2,810 o swyddi** adeiladu tai cymdeithasol
- **5,870 o swyddi** Uwchraddio ynni adnewyddadwy a phorthladdoedd
- **2,940 o swyddi** Gosodiadau Trydanol
- **4,260 o swyddi** inswleiddio ôl-ffitio tai
- **3,600 o swyddi** ailgoedwigo ac amddiffyn rhag llifogydd yn naturiol
- **3,426 o swyddi** Ymchwil a Datblygu
- **2,725 o swyddi** adeiladu lonydd beic a cherddwyr
- **6,560 o swyddi** cynhyrchu tai oddi ar y safle

*Dadansoddiad a wnaed mewn partneriaeth â TUC Cymru a New Economics Foundation (2020/21). Bras amcan yw'r niferoedd hyn ac nid ydynt yn hollgynhwysol o ran diwydiannau carbon isel a 'gwyrdd'.

Beth fedrwch chi ei wneud i gyfrannu at y weledigaeth hon o'r dyfodol?*

Prif argymhelliad i Lywodraeth Cymru:

Dod â phob sector ynghyd fel rhan o genhadaeth genedlaethol gydlynol i ddarparu addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Dylai hyn gael ei ariannu trwy greu Treth Addysg Gymreig, wedi'i hanelu at y trawsnewid i'r Cwricwlwm Cymru newydd a darpariaeth ar gyfer dysgu gydol oes.

Ond rwyf hefyd eisiau gweld Tîm Addysg Ôl-16 Llywodraeth Cymru yn:

- Creu gweledigaeth a chynllun i sicrhau bod Cymru'n dod y wlad fwyaf eco-lythrennog yn y byd.
- Cyfarwyddo'r Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol newydd i gynhyrchu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes sy'n helpu i gyflawni'r nodau llesiant. Dylai'r Comisiwn gael ei sefydlu mewn ffordd sy'n gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Sefydlu rhaglen newid sgiliau sy'n pontio cenedlaethau.
- Creu cynllun gweithredu i ddatblygu'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn 2050.
- Gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhywedd gan ffocysu'n benodol ar oblygiadau tueddiadau'r dyfodol yn ogystal â heriau cyfredol.
- Gweithredu argymhellion adroddiad 'Cymru 4.0 Cyflawni Trawsnewid Economaidd ar gyfer Dyfodol Gwaith Gwell' i gynllunio a pharatoi ar gyfer effaith newid technolegol ar waith a sgiliau.
- Cyflymu cefnogaeth y llywodraeth i dwf sectorau newydd, busnesau ynni amgen, prosesau peirianneg sy'n ymddangos, dylunio cynnyrch a rheoli gwastraff i arwain y ffordd mewn 'economi gwyrdd'.

- Ystyried sut y gallwch warantu mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau a chyflogadwyedd ar gyfer economi di-garbon yng nghyllideb 2021-22 a thu hwnt trwy, er enghraifft, gynyddu capasiti mewn rhaglenni prentisiaeth a hyfforddeiaeth mewn diwydiannau adferiad gwyrdd a chynyddu buddsoddiad mewn gwella mynediad i sectorau sydd mewn sefyllfa dda i gyflawni adferiad gwyrdd. Dylai rhaglenni fel ReAct gael eu hariannu'n ddigonol i gefnogi costau addysg a hyfforddiant ond hefyd i ddarparu cefnogaeth ariannol ddigonol i ganiatáu i weithwyr gynnal safonau byw da.
- Sefydlu prosesau recriwtio a chynllunio gweithlu, gan ganfod a gwobrwyo sgiliau a nodwyd ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogi Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu mewnwelediad hirdymor a'i gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol ddangos sut y maent yn defnyddio'r Ddeddf ac yn integreiddio'u gwaith yn amcanion llesiant cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu hardal.

*Yr argymhellion sydd fwyaf perthnasol i'ch gwaith chi a'ch tîm yn unig yw'r rhain. Mae mwy o argymhellion yn yr adran ar Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, yr hoffech, efallai, edrych arnynt.

Adnoddau ac offer defnyddiol, a all eich helpu i ddilyn yr argymhellion hyn:

Adroddiad unwaith mewn pum mlynedd yw hwn, sy'n nodi asesiad y Comisiynydd o'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r Ddeddf o fewn y cyfnod adrodd. Mae'n myfyrio ar gynnydd pob corff cyhoeddus drwy ystyried i ba raddau y maent wedi croesawu'r newid diwylliannol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ac mae hefyd yn ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud ar bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol.



Mae hwn yn ganllaw hawdd ei ddefnyddio i helpu cyrff cyhoeddus i feddwl a chynllunio'n well ar gyfer yr hirdymor, trwy gadw gweledigaeth glir ac ystyried tueddiadau'r dyfodol. Mae'r Pecyn Cymorth Tri Gorwel yn seiliedig ar fodel a ddatblygwyd gan Bill Sharpe a'r International Futures Forum. Fe'i datblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'n swyddfa ni i helpu cyrff cyhoeddus i osgoi gwneud penderfyniadau nad ydynt yn sefyll prawf amser.

Adroddiad ar yr heriau a'r cyfleoedd i'r system sgiliau yng Nghymru. Mae'n nodi'r newidiadau mewn polisi ar gyfer addysg, hyfforddiant a dysgu yng Nghymru ac yn adrodd ar y llwybr at well system sgiliau i Gymru.

Nod y ddogfen hon yw cryfhau lleisiau pobl ifanc wrth i ni agosáu at etholiad y Senedd yn 2021. Mae'n nodi'r argymhellion allweddol y mae'r Comisiynydd am weld Llywodraeth nesaf Cymru'n ymrwymo iddynt. Mae hi wedi galw ar bob plaid wleidyddol i ystyried yr argymhellion hyn yn eu gwaith maniffesto.

Cynhyrchodd TUC Cymru adroddiad ar adferiad gwyrdd yn dilyn y pandemig, gan alw am ysgogiad economaidd enfawr a nodi cynllun i gyflawni 'trawsnewid cyfiawn' i economi sero-net i weithwyr a chymunedau yng Nghymru.

Mae Adroddiad Coleg y Dyfodol i Gymru yn benodol i'r genedl ac mae'n nodi argymhellion ar gyfer gweledigaeth sgiliau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion i leihau anghydraddoldeb, ysbrydoli arloesedd a chydweithio, a chreu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes.

Cysylltiadau defnyddiol i'ch cynorthwyo wrth i chi i ddilyn yr argymhellion hyn:

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Central South Consortium
Consortiwm Canolbarth y De
Joint Education Service
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd

GwE
Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

ColegauCymru
CollegesWales

hefcw
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

national museum wales
amgueddfa cymru

EAS
Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i Dde Ddwyrain Cymru